Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Adnoddau Bryntirion**

**Cartref a Chanolfan Ddydd Bryntirion**
**Ffordd Pontrhydfendigaid**
**Tregaron**
**SY25 6JE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canolfan Adnoddau Bryntirion

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Diben yr arolygiad â phwyslais penodol hwn yw adolygu Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth agored ynghylch goruchwyliaeth y darparwr.

Mae'r bobl yn parhau i gael gofal a chymorth unigol sy'n diwallu eu hanghenion. Dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"there is no need for you to worry about here, they are perfect and wonderful staff"*

Mae'r darparwr wedi gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal yn ei ymweliad a'i adroddiad dilynol ar Ansawdd y Gofal.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn cyfeirio'r gofal y maent yn dymuno ei gael. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, a dywedodd un unigolyn wrthym *“the staff are fantastic, first class, we are so lucky”.* Mae'r staff profiadol ac ymroddedig yn deall anghenion unigol y bobl ac yn canolbwyntio ar eu llesiant drwy dreulio amser yn sgwrsio â nhw. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym “*Residents are fantastic, there’s not one day that I get up without a smile on my face”.*

Mae’r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac yn mynegi eu barn am y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymdrin â materion o ran yr amgylchedd ac yn cynnwys y bobl a staff y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn mynegi eu barn am y gwasanaeth am fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r adroddiadau dilynol yn cynnwys camau gweithredu manwl ac amserlenni. Mae gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau mewnol yn galluogi'r Unigolyn Cyfrifol i fonitro, asesu ac adolygu ansawdd y gwasanaeth. Mae'r trefniadau goruchwylio gwell yn galluogi'r darparwr i wella'r gwasanaeth cyffredinol y mae'n ei gynnig i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn rhan o ffocws yr arolygiad hwn, ond dengys ein trafodaethau â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth unwaith eto fod anghenion iechyd a llesiant yn cael eu diwallu.

Siaradodd y bobl yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r rhyngweithio yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'r gweithwyr gofal yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r bobl yn gallu ei wneud drostynt eu hunain ac yn eu cefnogi o ran yr hyn nad ydynt yn gallu ei wneud. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym*“they have been so good at helping me get better”.* Dywedodd person arall wrthym am y cymorth yr oedd yn ei gael i wella ar ôl cyfnod o afiechyd, gan ddweud*“they are great here and are helping me to get ready to move back home”.*

## Yr Amgylchedd

Nid oedd yr amgylchedd yn rhan o ffocws yr arolygiad hwn, ond cafodd ei nodi'n Faes i'w Wella yn flaenorol a bydd yn cael ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae gan y darparwr gynlluniau adnewyddu a fydd yn gwella iechyd a llesiant y bobl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro cynnydd y gwaith adnewyddu yn ystod ei ymweliadau chwarterol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella ei drefniadau i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o drafodaethau â'r bobl a'u cynrychiolwyr. Siaradodd y gweithwyr y cyfarfu'r Unigolyn Cyfrifol â nhw yn gadarnhaol am yr ymweliadau a'u cyfle i drafod y gwasanaeth.

Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn fanwl ac yn cynnwys adborth gan y bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau mewnol yn galluogi'r Unigolyn Cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth ac i bennu camau gweithredu clir o ran sut i wella ansawdd. Mae'r rhaglen adnewyddu yn elfen allweddol o'r adroddiad, ac yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud ac unrhyw rwystrau.

Gallwn ddod i'r casgliad fod y darparwr wedi gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a'i fod yn canolbwyntio ar ei ddatblygu. Rydym yn disgwyl i'r lefel hon o oruchwyliaeth barhau a chaiff ei brofi mewn arolygiadau yn y dyfodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 6 | Goruchwyliaeth y darparwr | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw Lleatynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Yr Amgylchedd | Adolygwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/12/2022